Cydymdeimlad, Cofion a Llongyfarchion

Gyda thristwch y daeth y newyddion am farwolaeth dau o'n haelodau yr wythnos ddiwethaf, sef Mrs Doreen Evans (Llansannan) a Mr Selwyn Davies (Nantglyn). Bu i Doreen gyfrannu'n helaeth i fywyd yr eglwys yn Nhanyfron pan oedd y capel ar agor yno, ac er na fu'n dda ei hiechyd ers tro, mawr fydd y golled i'w theulu ac i'r ardal gyfan. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Medwyn, Sioned a Rhodri (Llansannan) ynghyd â'i meibion eraill a gweddill y teulu yn eu profedigaeth. Yn yr un modd, gallwn dystio i gyfraniad arbennig Selwyn i Gapel y Waen, Nantglyn ag yntau wedi gwasanaethu fel blaenor yn yr eglwys am 35 mlynedd hyd nes iddo ymddeol yn 2020. Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i briod Edwina; ac â'r plant Clwyd ac Ann (Nantglyn) a'r teulu; ei frodyr Gwilym (Nantglyn) a Robin (Groes), a gweddill ei frodyr a'i chwiorydd, ynghyd â'u teuluoedd oll. Gweddïwn y bydd pob un ohonynt yn adnabod holl ddaioni Duw yn gwarchod drostynt yn eu galar a'u hiraeth.

Wrth i sawl un o'n plith barhau i dderbyn gwahanol driniaethau, cyflwynwn y cleifion oll yn ein gweddïau. Cofiwn yn arbennig am Elwyn Tudor (Henllan) sy'n cael gofal yn San Cyndeyrn, Beti Williams (Llansannan) yn Ysbyty Glan Clwyd, a Merfyn Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Clatterbridge. Gweddïwn bod y cleifion oll a'u teuluoedd yn adnabod cariad Duw yn eu hamgylchynu. Mae'n dda cael adrodd bod Meurig Owen (Cefn Meiriadog); Nesta Evans (Saron); ac Eifion Howatson ac Eirian Roberts (Llannefydd) wedi cael dod adref o'r ysbyty a'u bod yn gwella. Anfonwn ein cofion atynt, gyda'n dymuniadau gorau am adferiad buan.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Dafydd Davies (Saron) ac Anna ar enedigaeth merch fach, Gwenlli Hywel. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

Dymunwn yn dda i Mared Vaughan (Saron) a Richard Lewis fydd yn priodi yn Saron ddechrau mis Awst, ac i Sioned Williams (Hiraethog) a Guto Owen fydd yn priodi yn Llansannan diwedd mis Awst. Gweddïwn y bydd y ddau gwpl yn cael diwrnod cofiadwy, ac y daw bendithion lu i'w rhan yn eu bywyd priodasol.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i'r Parch. Aneurin Owen (Llansannan) sydd, yn dilyn cyfarfodydd yng Nghaerfyrddin yr wythnos hon, wedi cychwyn ar ei dymor o ddwy flynedd fel Llywydd Cymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dymunwn fendith Duw arno wrth iddo ymgymryd â'i ddyletswyddau.

Gyda llawenydd y gallwn gyhoeddi fod Haf Evans a Margaret Jones wedi cael eu hethol i wasanaethu fel blaenoriaid yng Nghapel Henllan ac yn Henaduriaeth Dyffryn Clwyd. Diolchwn i Dduw amdanynt a dymunwn yn dda i'r ddwy, ynghyd â dwy o Drefnant, fydd yn cael eu hordeinio mewn oedfa gyhoeddus yng Nghapel Clwyd Street, Y Rhyl nos Sadwrn, Gorffennaf 15fed am 6:00 yr hwyr. Yn yr un cyfarfod, bydd yr Henaduriaeth yn cydnabod cyfraniad gwerthfawr nifer o flaenoriaid gan gynnwys Mr Trebor Roberts (Llansannan) sydd wedi rhoi 50 mlynedd o wasanaeth fel blaenor. Diolchwn ninnau yn gywir iawn iddo am ei ymroddiad a'i wasanaeth ar hyd y blynyddoedd.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 16 Gorffennaf 2023

eglwysibroaled.com *rhaglendorcas.com* *llanw.org*

Mynd i capal

Fyddech chi ddim yn disgwyl i weinidog yr Efengyl ddeud hyn; ond wir i chi, dwi am fynd i'r capel yn llai aml. Ond rhag i chi feddwl yn rhy ddrwg ohonof, gwell egluro bod 'mynd i capal' dros y blynyddoedd wedi golygu ymysg pethau eraill, nôl llyfrau, defnyddio'r llungopïwr, gosod byrddau, symud cadeiriau, hwylio stafell, cynnau'r gwres, diffodd golau ac agor a chloi drysau. Bydd llai o alw i wneud y pethau hyn wedi i mi, os byw ac iach, ymddeol ddiwedd Awst. Fydda i ddim yn aros gartra ar y Sul ond yn dal i 'fynd i capal', ac os Duw a'i myn yn dal i fynd i bregethu.

'Mynd i capal' ddyweda' i a miloedd o bobl eraill am yr hyn a wnawn bob Sul. Ond hen ymadrodd sâl ydi o mewn gwirionedd gan nad ydi o'n deud dim am bwrpas na gwerth y mynd hwnnw. Mi all hyd yn oed awgrymu'r arferiad gwag o fynd i gapel, a dim mwy na hynny. A buan iawn y try'r arferiad gwag o 'fynd i capal' yn arferiad o 'beidio â mynd'.

Gwell gan rai sôn am 'fynd i'r oedfa' gan roi'r pwyslais nid ar y capel ond ar yr hyn sy'n digwydd ynddo. Gwn fod rhai'n dweud hynny er mwyn gwahaniaethu rhwng yr oedfa a'r Ysgol Sul a'r cyfarfod gweddi. Ond er na fydda i'n ei ddefnyddio, dwi'n hoff o'r ymadrodd gan mai'r hyn a wnawn mewn oedfa yw 'cadw oed'. Cadw oed a wna cariadon wrth gadw eu haddewid i gyfarfod mewn lle ac ar amser penodol. Ac onid cadw oed â Duw a wnawn wrth fynd i oedfa i'w addoli gydag eraill? Neu tybed oes rhai ohonoch yn dal i sôn am 'fynd i'r moddion' neu 'fynd i foddion gras'? Dyna ffordd brydferth arall o ddisgrifio'r hyn a wnawn o Sul i Sul. Nid mynd yn ddifeddwl trwy ddrws capel, ond gwneud rhywbeth sy'n amlwg yn dod â chymorth a bendith. Moddion gras – cyfryngau gras neu ffisig gras Duw – i rai gwael ydi'r Gair a ddarllenir ac a bregethir, a'r weddi a'r emyn a phopeth arall sy'n rhan o addoliad eglwys.

Ac o wrando ar *Ganiadaeth y Cysegr* y Sul diwethaf fe'm hatgoffwyd o'r arferiad ymhlith llawer o'r hen Ymneilltuwyr – yn y De yn fwyaf arbennig – i gyfeirio nid at y 'capel' ond at y 'tŷ cwrdd'. Dwi ddim yn awgrymu y dylem fabwysiadu'r enw, ond mi fyddai'n dda i ni feddwl o'r newydd am y capel a'r oedfa fel lle i gyfarfod â Duw ac â'i bobl trwy'r addoli sy'n digwydd ynddo.

Y Parch. John Pritchard

Sylwer: *Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 3ydd – cyhoeddiadau i'w hanfon erbyn nos Fercher, Awst 30ain, os gwelwch yn dda.* ***Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plîs cysylltwch â Mair. (07900 627536 / mair@eglwysibroaled.com).***

Cyhoeddiadau'r Fro

Dydd Sul, Gorffennaf 16eg

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Robert O. Roberts. Bydd Ysgol Sul y plant yn cydredeg â'r oedfa yn Llansannan.
- **Oedfa i'r Daith (Llannefydd, Cefn Berain, Henllan a Groes)** yng Nghefn Berain am 10:30 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris.
- **Oedfa yn Saron** am 10:00 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis. Ni fydd oedfa yn Nantglyn heddiw.
- **Oedfa'r Fro yng Nghefn Meiriadog** am 6:00 yr hwyr yng nghwmni Alun Jones, Aneurin Owen a chyfeillion o Mizoram.

Dydd Llun, Gorffennaf 17eg

- **Pwyllgor Bugeiliol** yn cyfarfod yn Llansannan am 7:00 yr hwyr *(sylwch ar y lleoliad a'r amser).*

Dydd Mercher, Gorffennaf 19eg

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00 *(sylwch ar y newid dyddiad).*

Dydd Sul, Gorffennaf 23ain

- **Cyfarfod Gweddi yn Llansannan** am 10:00 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 10:30.
- **Oedfa Thema yn Henllan** am 9:30 a **Chyfarfod Gweddi yn Llannefydd** am 10:00.
- **Oedfa i'r Daith (Saron a Nantglyn) yn Saron** am 10:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones.

Dydd Mawrth, Gorffennaf 25ain

- **Cinio Jangl yn Festri Llansannan** am 12:00.

Dydd Sul, Gorffennaf 30ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Brian Wright.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 o dan arweiniad Mr Rhys Dafis ac **Oedfa Fedydd yn Groes** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Aneurin Owen pryd y bydd Elen ac Owain yn cyflwyno Awel Elgan i gael ei bedyddio.

Dydd Mawrth, Awst 1af

- **Paned a Sgwrs yn Festri Llansannan** am 1:30 y prynhawn.

Dydd Gwener, Awst 4ydd

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00 y bore.

Dydd Sul, Awst 6ed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yn Llannefydd** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Meirion Morris.

Dydd Sul, Awst 13eg

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Alun Jones.
- **Cyfarfod Gweddi** yn Henllan am 9:30 ac yng Nghefn Berain am 10:00.

Dydd Sul, Awst 20fed

- **Oedfa yn Llansannan** am 9:30 ac **yng Nghefn Meiriadog** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Gareth Edwards.
- **Oedfa yn Llannefydd** am 9:30 o dan arweiniad Mr Alun Jones.

Dydd Sul, Awst 27ain

- **Oedfa yng Nghefn Meiriadog** am 9:30 ac **yn Llansannan** am 11:00 o dan arweiniad Mr Arawn Glyn.
- **Oedfa yng Nghefn Berain** am 9:30 **yn Henllan** am 11:00 o dan arweiniad y Parch. Trefor Lewis.

Dydd Gwener, Medi 1af

- **Paned a Sgwrs yng Nghapel Llannefydd** am 10:00.

Dydd Sul, Medi 3ydd

- **Bore Bro Aled: 'Bodlon yng Nghrist'** – Oedfa i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth yn Saron am 10:30. Yn dilyn yr oedfa (os bydd y tywydd yn ffafriol), bydd cyfle i fynd am dro, felly dewch â phicnic ac esgidiau addas hefo chi. Cawn fwyta ein picnic cyn i ni gychwyn am dro – bydd paned wedi ei pharatoi ar ein cyfer yn y Festri, diolch i gyfeillion Capel Saron.

Cinio Jangl Llansannan – Awst

Bydd Cinio Jangl yn cael ei gynnal ar y dyddiadau canlynol yn ystod mis Awst: 8fed, 15fed, 22ain a'r 29ain. Croeso i bawb!

Golud – Sesiwn codi ymwybyddiaeth am Ddementia

Bydd y sesiwn gwerthfawr hwn yn cael ei gynnal yn Llansannan **nos Fawrth, Medi 12fed am 7:30.** Plîs cadwch y dyddiad yn rhydd. Croeso i bawb!